

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 20
CHWEFROR 2009

Pe bai rhywun yn gofyn i chi beth oedd y geiriau mwyaf cofiadwy a glywyd gennych yn ystod y misoedd diwethaf, y mae'n go debyg y byddai sawl un ohonoch yn datgan *y Credit Crunch*. Prin bod yna'r un rhaglen newyddion yn cael ei darlledu heb ein bod yn clywed y geiriau hyn. Ydy, y mae'r term wedi dod yn un tra chyfarwydd ac yn rhan o'n geirfa bob dydd. Daethom i wybod yn dda am drafferthion y banciau a'r problemau economaidd sydd yn wynebu nid yn unig ein gwlad ein hunain ond y byd yn gyfan, ac y mae'r holl sôn am ddyledion yn siŵr o'n gwneud ni i gyd i deimlo'n ddi-galon iawn. Cofiwch, fe fu'r rhan fwyaf ohonom mewn rhyw fath o ddyled i'r banc neu i gymdeithas adeiladu ar ryw adeg neu'i gilydd yn ystod ein bywydau ac i'r rhai ohonom sydd yn parhau i fod mewn dyled, edrychwn ymlaen yn eiddgar at y diwrnod pan fydd pob ceiniog wedi ei thalu yn ôl.

Ond wyddoch chi am y ddyled honno sydd gan bob un ohonom i'w thalu ac a fydd yn daladwy am weddill ein bywydau? "Beth yw hynny?" meddech chi. "Does gen i ddim dyledion. Mae'r morgais wedi ei dalu ers tro!" Wel, beth am y ddyled o garu ein gilydd? Yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid, y mae'r Apostol Paul yn annog y Cristnogion yno i dalu eu dyledion i'r wladwriaeth ac i beidio â bod mewn dyled i neb, ar wahân i'r ddyled o garu ein gilydd. Dyma'r ddyled y mae angen inni ei thalu bob dydd ac eto oll, er ei thalu fe fyddwn mewn dyled am weddill ein bywydau. Nid yn unig y mae'r gwaith o garu ein gilydd yn gyfrifoldeb arnom ond y mae hefyd yn rhwymedigaeth, yn orfodaeth ac yn rheidrwydd. Fe fydd y rhan fwyaf ohonom yn hoff o fynd am dro o bryd i'w gilydd i'r siopau er mwyn edrych ar y cynnyrch. Yn aml fe welwn arwydd mewn siop yn ceisio ein denu dros y trothwy gyda'r geiriau: "Croeso i chi edrych o gwmpas – nid oes rhaid i chi brynu o gwbl". Nid felly Cristnogaeth! Y mae'n rheidrwydd arnom i garu bob amser a hynny'n ddi-ffael.

Ond gwyddom nad mater hawdd yw hynny, a haws dweud na gwneud. Yn union fel talu ein dyledion ariannol y mae'n rhwydd mynd i drafferthion Cristnogol ac yn hytrach na charu ein gilydd fe fyddwn yn fwy tebyg o gasáu ein gilydd! Ond fel Cristnogion nid ydym yn ddibynnol ar ein hadnoddau ein hunain am y cawn ein cynorthwyo i garu cyd-ddyn gan fod Duw yn parhau i dywallt ei gariad arnom.

Yn y byd seciwlar yr ydym yn gwybod yn dda am *y credit crunch* ond fel Cristnogion does dim peryg y daw unrhyw *credit crunch* ysbrydol ar ein cyfyl a hynny am fod cariad y Duw byw yn parhau i orlifo tuag atom yn ddi-ddiwedd. Fe fydd hynny'n fodd i'n cynnal a'n cynorthwyo drwy ba anawsterau bynnag a brofwn mewn bywyd.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

## CALENDR MIS CHWEFROR 2009

| **Cyhoeddwr y Mis** | **Robert Dobson Organydd y Mis ; Ceris Gruffudd** | |
|---|---|---|
| 1 Chwefror 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa gymun: Gweinidog | Bwrdd y cymun: Sue Hughes |
| 8 Chwefror 10.30 | Oedfa deuluol: Gweinidog | |
| 15 Chwefror 2.30 | Oedfa bregethu: Gweinidog | Gofal y Te: Glenys a William Howells |
| 22 Chwefror 10.30 | Oedfa bregethu: Y Parchg Peter Thomas | |
| 1 Mawrth 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa gymun: Gweinidog | Bwrdd y cymun: Rhiannon Humphreys |

**I'CH DYDDIADUR**

**2 Chwefror:** Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol ym Methel 12.00-1.30yp.
**4 Chwefror :** Cymun Canol Dydd Bethel: 12.00yp.
**6 Chwefror** : Cyngerdd Pum Mlynedd Côr Ger-y-Lli. Canolfan y Celfyddydau am 7.30yh.
**11 Chwefror :** Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys. **Horeb yn gyfrifol am weini.**
**11 Chwefror :** Os Mêts : Hwyl o'r Bala : Festri'r Garn: **NODER NOS FERCHER .**
**18 Chwefror** : Cymdeithas Bethel : Jez Danks, Amgueddfa Ceredigion. 2.00yp.
**18 Chwefror :** Ifor ap Glyn yn sôn am baratoi'r gyfres 'Popeth yn Gymraeg' ' Cymdeithas y Penrhyn am 7.30.
**24 Chwefror :** Cwrdd Gweddi misol yn festri Horeb 7.30.
**25 Chwefror** : Cinio Cymundedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys.
**25 Chwefror** : Ffilm Awr Ginio yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol : "Cwm Tawelwch". Erwyd Howells yn cyflwyno'r rhaglen a wnaed yn y chwedegau cynnar ychydig cyn boddi Nant-y-moch. Mynediad am ddim drwy docyn.1.15yp.
**26 Chwefror :** Os Mêts : Dathlu Gŵyl Ddewi : Festri'r Garn : Angen cael enwau er mwyn trefnu'r bwyd.
**30 Mawrth** : Pwyllgor Bethel a Horeb ym Methel am 7yh.
**5 Gorffennaf:** Byddwn yn cynnal oedfa yng nghapel Salem, Llanbedr lle peintiwyd y llun enwog "Salem" gan Curnow Vosper. Cawn hanes y llun a'r capel yn ystod ein hymweliad.

**LLOFFION**

- Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwenan a Richard ar golli brawd yn ddiweddar.
- Llongyfarchiadau i Karen a Mathew ar enedigaeth Owen Jac.
- Dymunwn yn dda i Cerys ar ei thaith beicio i godi arian i Mencap.
- Llongyfarchiadau I Mared ar ei hymddangosiad yn y rhaglen deledu "Y Fet a Fi".

**Taith yr Undeb: "Sbardun" :** Mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi trefnu taith yn ystod Ionawr a Chwefror a fydd yn mynd i bob Cymanfa yn ei thro. Prif bwrpas y daith yw sefydlu gwell dealltwriaeth o anghenion yr eglwysi o fewn y Cymanfaoedd, i drosglwyddo gwybodaeth ac adnoddau, ac i galonogi unigolion ac eglwysi yn eu cenhadaeth a'u gweinidogaeth. Mae wyth o ganolfannau wedi'u penodi a fydd yn galluogi cynrychiolwyr i fynychu'r cyfarfodydd. Dyma'r dyddiadau ym mis Chwefror: 6ed Chwefror 2009 - Llanidloes 6.30—9.00 ; 7fed Chwefror 2009 - Moriah, Risca 10.30 –1.00; 13eg Chwefror 2009 – Bethesda, Hwlffordd 6.30—9.00; 20fed Chwefror 2009 - Blaenffos 6.30—9.00; 27ain Chwefror 2009 – Smyrna, Penyfai , 6.30–9.00; 28ain Chwefror 2009 Tabernacl, Caerfyrddin 10.30—1.00. **(O.N. Byddaf yn mynychu un o'r cyfarfodydd uchod. Croeso i unrhyw un ddod hefyd. Cysylltwch â Judith).**